Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50797**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref

Ionawr 2025

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 29 Gorffennaf a 14 Hydref 2024 ar Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025. Mae'r rheoliadau drafft yn darparu gofynion ar gyfer system o raddau arolygu cyhoeddedig ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Mae'r rheoliadau drafft yn ymdrin â thair agwedd ar y system – arddangos graddau arolygu, apelio yn erbyn graddau arolygu a throseddau.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Polisi Cartrefi Gofal
Yr Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: TimCartrefiGofal@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Ymgynghoriad ar raddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref [HTML] | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys ........ 2
Adran 1 ........ 3
1.1 Cyflwyniad ........ 3
1.2 Y cyd-destun a'r rhesymeg ........ 3
1.3. Yr ymgynghoriad hwn ........ 6
1.4 Yr ymateb i'r ymgynghoriad ........ 7
Adran 2 – Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru ........ 9
2.1 Arddangos graddau arolygu ........ 9
2.2 Apelio yn erbyn graddau arolygu ........ 13
2.3 Troseddau ........ 14
2.4 Y Gymraeg ........ 15
2.5 Unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig ond nad ydynt yn cael eu trafod yn yr ymgynghoriad ........ 16
Adran 3 – Y camau nesaf ........ 17
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr ........ 18

**Adran 1**

## 1.1 Cyflwyniad

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') yn darparu fframwaith statudol i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Adran 37 o Ddeddf 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch graddau y caniateir iddynt gael eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi cael ei arolygu.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar reoliadau drafft, sef *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025*, a fydd yn darparu ar gyfer system o raddau arolygu cyhoeddedig ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal (i oedolion a phlant) a gwasanaethau cymorth cartref o fis Ebrill 2025.

## 1.2 Y cyd-destun a'r rhesymeg

Ceir manylion llawn am gyd-destun yr ymgynghoriad hwn a'r rhesymeg drosto yn y brif ddogfen ymgynghori, sydd ar gael yma. Isod, ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol:

### Arddangos graddau arolygu

Arddangos graddau ar-lein

Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cartrefi gofal i oedolion, gwasanaethau cartrefi gofal i blant, a gwasanaethau cymorth cartref, gyhoeddi eu graddau arolygu diweddaraf ar bob gwefan a gynhelir ganddynt, neu bob gwefan a gynhelir gan drydydd parti ar eu rhan, mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw. Os bydd gan ddarparwr fwy nag un gwasanaeth neu os bydd yn darparu gwasanaeth mewn mwy nag un man, o fwy nag un man neu mewn perthynas â mwy nag un man, rhaid i'r darparwr ei gwneud yn glir pa fan y mae'r graddau arolygu yn ymwneud ag ef.

Rhaid i'r graddau arolygu a ddangosir ar wefan darparwr:

- cael eu harddangos yn ddi-oed ar ôl i raddau arolygu gael eu cyhoeddi mewn adroddiad arolygu gan AGC.
- bod ar y ffurf benodedig a ddynodir gan Weinidogion Cymru.
- bod yn ddarllenadwy.
- cynnwys y dyddiad y rhoddwyd y graddau arolygu.
- cael eu harddangos mewn lle amlwg.

Nid yw'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gael gwefan. Fodd bynnag, os caiff ei basio, bydd Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n diwygio Deddf 2016, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi'r

datganiadau blynyddol sy'n ofynnol o dan Adran 10 o Ddeddf 2016 ar eu gwefan eu hunain. Felly, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau gael gwefan i fodloni gofynion Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) unwaith y daw'r Bil yn Ddeddf ac y daw'r gofyniad i rym. Amcangyfrifir y bydd hyn yn digwydd ar ôl mis Ebrill 2026.

<u>Arddangos graddau yn safleoedd gwasanaethau neu o safleoedd gwasanaethau</u>

*Gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion*

Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cartrefi gofal i oedolion arddangos o leiaf un arwydd yn dangos eu graddau arolygu diweddaraf ym mhob safle cartref gofal y caiff gwasanaeth ei ddarparu ynddo neu ohono ac y mae'r graddau yn ymwneud ag ef. Rhaid i raddau arolygu:

- cael eu harddangos yn ddi-oed ar ôl i raddau arolygu gael eu cyhoeddi mewn adroddiad arolygu.
- bod ar y ffurf benodedig a ddynodir gan Weinidogion Cymru.
- bod yn ddarllenadwy.
- cynnwys y dyddiad y rhoddwyd y graddau arolygu.
- cael eu harddangos mewn lle amlwg.
- cael eu harddangos mewn lleoliad sy'n hygyrch i unigolion sy’n cael y gwasanaeth ac ymwelwyr â’r man y darperir y gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol ynddo neu ohono.

Ni fydd y gofyniad i arddangos y graddau arolygu mewn safleoedd cartrefi gofal yn gymwys i ddarparwyr cartrefi gofal llai sydd â phedwar neu lai o unigolion yn byw yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn debycach i gartrefi teuluol ac, felly, efallai na fydd arddangos graddau arolygu yn briodol a gall wneud i'r gwasanaeth deimlo'n llai cartrefol. Gall darparwyr y gwasanaethau llai hyn ddefnyddio eu barn a gallant arddangos y graddau arolygu yn wirfoddol os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol.

Mae'r trothwy o “bedwar unigolyn neu lai” yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddiwyd gennym yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys esemptiad sy'n datgymhwyso'r gofynion yn Rhan 13 o'r rheoliadau (fel y gofyniad i ystafelloedd gwely gael cyfleusterau en-suite) ar gyfer cartrefi â phedwar neu lai o unigolion.

Roeddem wedi gofyn am farn ar b'un a yw datgymhwyso'r gofyniad i arddangos graddau arolygu mewn safleoedd cartrefi gofal â phedwar unigolyn neu lai yn gymesur neu a allai fod unrhyw oblygiadau anfwriadol.

*Gwasanaethau cartrefi gofal i blant*

Ni fydd y gofyniad i arddangos arwyddion amlwg o raddau arolygu mewn safleoedd cartrefi gofal yn gymwys i gartrefi gofal i blant. Cafodd yr esemptiad hwn ei bennu ar sail adborth a gafwyd gan blant â phrofiad o fod mewn gofal fel rhan o adroddiad a

gomisiynwyd gan AGC i ganfod barn plant a phobl ifanc ynghylch beth sy'n gwneud cartref gofal ardderchog. Dywedodd y rhai a gymerodd ran na ddylai cartref plant edrych yn wahanol i gartref teuluol unrhyw blentyn arall. Roedd y plant am gael cartrefi nad ydynt yn edrych fel cartrefi plant ac nid oeddent am weld unrhyw arwyddion (corfforaethol) i ddangos mai cartref plant yw eu cartref, a all arwain at stigma cysylltiedig eu bod yn ‘derbyn gofal.’

*Gwasanaethau cymorth cartref*

Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cymorth cartref arddangos o leiaf un arwydd yn dangos eu graddau arolygu diweddaraf ym mhob swyddfa y mae gwasanaeth yn gweithredu ynddi neu ohoni ac y mae'r graddau yn ymwneud ag ef oni bai bod y swyddfa'n anhygyrch i aelodau o'r cyhoedd. Mae hyn yn ffordd o gydnabod nad oes gofyniad cyfreithiol i wasanaeth cymorth cartref gael swyddfa ffisegol.

Rhaid i raddau arolygu a arddangosir:

- cael eu harddangos yn ddi-oed ar ôl i raddau arolygu gael eu cyhoeddi mewn adroddiad arolygu.
- bod ar y ffurf benodedig a ddynodir gan Weinidogion Cymru.
- bod yn ddarllenadwy.
- cynnwys y dyddiad y rhoddwyd y graddau arolygu.
- cael eu harddangos mewn lle amlwg.
- cael eu harddangos mewn lleoliad sy'n hygyrch i unigolion sy’n cael y gwasanaeth ac ymwelwyr â’r man y darperir y gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol ynddo neu ohono.

Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn glir nad yw'n ofynnol arddangos graddau arolygu yng nghartrefi pobl sy'n derbyn gwasanaethau cymorth cartref, gan na fyddai hynny'n briodol. Mae hyn yn cynnwys llety byw â chymorth. Mae pobl sy'n byw mewn gwasanaethau byw â chymorth yn derbyn cymorth cartref yn eu fflatiau hunangynhwysol eu hunain. Fel y cyfryw, nid yw'n ofynnol arddangos graddau arolygu yn y lleoliadau hyn.

<u>Darparu graddau arolygu ar gais</u>

Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref a gwasanaethau cartrefi gofal roi eu graddau arolygu i unrhyw unigolyn ar gais, mewn fformat priodol. Dylai'r fformat fod yn addas i anghenion, oedran a lefel dealltwriaeth yr unigolyn sy'n gwneud cais amdano. Mae hyn yn cyd-fynd â'r bwriad yn Neddf 2016 i sicrhau bod gwybodaeth hygyrch a gwrthrychol am wasanaethau rheoleiddiedig ar gael i'r cyhoedd.

**Apelio yn erbyn graddau arolygu**

Mae Deddf 2016 yn nodi bod yn **rhaid** i reoliadau a wneir o dan adran 37 gynnwys darpariaeth i ddarparwr gwasanaeth apelio yn erbyn gradd sydd wedi'i chynnwys mewn adroddiad arolygu. Mae cynnwys proses apelio o fewn y rheoliadau yn rhoi ffordd i ddarparwyr herio penderfyniadau graddau a wneir gan arolygwyr o dan amgylchiadau arbennig.

Mae'r rheoliadau drafft yn nodi y caiff darparwyr apelio yn erbyn graddau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad arolygu ar y sail eu bod yn seiliedig ar **anghywirdeb ffeithiol** a/neu **dystiolaeth anghyflawn**. Felly, gall darparwyr apelio yn erbyn graddau yr ystyrir eu bod yn seiliedig ar ganfyddiadau sy'n cynnwys gwallau a/neu dystiolaeth anghyflawn.

Pe bai darparwr yn dymuno apelio ar y seiliau a nodir uchod, rhaid iddo wneud cais yn gyntaf i'r arolygiaeth gynnal adolygiad o'r graddau drwy ysgrifennu at AGC o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y darparwyd yr adroddiad arolygu drafft. Os bydd yn anfodlon ar ganlyniad adolygiad, gall y darparwr gyflwyno apêl drwy ysgrifennu at AGC o fewn 5 diwrnod gwaith i gael hysbysiad o ganlyniad yr adolygiad. Rhaid i'r apêl gael ei gwneud ar yr un seiliau â'r rhai y dibynnir arnynt i geisio'r adolygiad. Caiff yr apêl ei hystyried gan unigolyn sy'n annibynnol ar dîm yr arolygydd. Bydd AGC yn ystyried yr apêl ac yn cadarnhau'r graddau arolygu terfynol drwy anfon adroddiad arolygu terfynol at y darparwr gwasanaeth a'i gyhoeddi ar ei gwefan.

Mae'r broses hon yn cyd-fynd â phroses dau gam bresennol AGC i ddarparwyr herio adroddiadau arolygu, a amlinellir ym Mholisi AGC ar gyfer Ymateb i Adroddiadau Arolygu: Polisi ar gyfer Ymateb i Adroddiadau Arolygu (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

### Troseddau

Mae'r rheoliadau yn creu trosedd, sef methu ag arddangos gradd arolygu yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol. Bydd hyn yn gymwys os na fydd darparwr yn arddangos y radd ar ei wefan (os oes ganddo un), neu yn y safle y mae'n darparu gwasanaeth ynddo neu ohono (oni bai bod yr esemptiad yn gymwys iddo).

Mae'r rheoliadau yn galluogi AGC i ymdrin â'r drosedd drwy hysbysiad cosb. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r darparwr dalu cosb yn hytrach na wynebu camau cyfreithiol mewn perthynas â'r drosedd. Mae'r gosb sy'n daladwy am y drosedd yn gyfwerth â lefel 4 ar y raddfa safonol, sef £2,500.

Mae'r gosb hon yn debyg i'r gosb y gellir ei rhoi os na fydd darparwr yn cydymffurfio â gofynion i wneud hysbysiadau neu sicrhau bod ganddo bolisïau a gweithdrefnau penodol.

## 1.3. Yr ymgynghoriad hwn

Cynhaliwyd ymgynghoriad dros 12 wythnos rhwng 29 Gorffennaf a 14 Hydref 2024. Gwnaethom wahodd ymatebwyr i gyflwyno eu safbwyntiau drwy'r ffurflen ar-lein,

drwy e-bost neu drwy'r post. Cafodd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori ei llunio hefyd.  Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid â diddordeb yn y cynigion i'w hysbysu am yr ymgynghoriad. Y rhanddeiliaid hyn oedd:

- Aelodau Arweiniol Awdurdodau Lleol dros Ofal Cymdeithasol
- Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion
- Cadeiryddion y GIG
- Prif Weithredwyr y GIG
- Ysgrifenyddion Byrddau'r GIG
- Conffederasiwn GIG Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
- Plant yng Nghymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Llais (Corff Llais y Dinesydd)
- Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio
- Cadeiryddion a Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Cymdeithas Cartrefi Plant
- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant

Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

### 1.4 Yr ymateb i'r ymgynghoriad

Cafodd Llywodraeth Cymru 127 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. O'r rhain, cafwyd 73 o ymatebion cyflawn, 21 o ymatebion cyflawn heb destun na gwybodaeth a 33 o ymatebion anghyflawn heb fawr o destun na gwybodaeth. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar bob un o'r 127 o ymatebion a gafwyd. Cafwyd 46 o ymatebion gan unigolion, a chafwyd 77 o ymatebion ar ran sefydliadau (nid oedd yn hysbys pwy

anfonodd y lleill). Cyflwynodd un darparwr gwasanaeth 29 o ymatebion drwy ei wasanaethau, a oedd yn cyfrif am 22% o gyfanswm yr ymatebion. Ceir rhestr isod o'r sefydliadau a ymatebodd (a oedd heb nodi eu bod am aros yn ddienw):

- Case Management Cymru Ltd
- Lighthouse Residential Homes Ltd
- Life Long Learning 4 Living Ltd
- Azalea Care and Education Ltd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Village Support Services
- L'Arche
- Rumney Care & Ambulance Service
- Brightside Manor
- Miracle Workers Agency Ltd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Taith Cartref - Accomplish Group
- Thompson Court - Accomplish Group
- College Fields - Accomplish Group
- Cyngor Sir Powys
- Accomplish Group
- Treeside - Accomplish Group
- Manor Lodge - Accomplish Group
- Keys Group
- Q Care
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Care in Wales Ltd
- Cyngor Sir Ddinbych
- Denbigh Care Group
- Hafod Housing Association Ltd
- Hanbury Care
- Shaw Healthcare
- Hapus Care Home
- East Park Care Centre
- Cyngor Dinas Abertawe
- Lakeside Homes Ltd
- Cyngor Sir y Fflint
- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Care Rights UK
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd
- Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- Awdurdodau lleol rhanbarth Gwent a BIP Aneurin Bevan
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Fforwm Gofal Cymru

- Llais Cymru
- HC One

## Adran 2 – Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

### 2.1 Arddangos graddau arolygu

### A. Arddangos graddau ar-lein

Bydd Rheoliadau drafft Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 yn gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion, gwasanaethau cartrefi gofal i blant, a gwasanaethau cymorth cartref, i gyhoeddi eu graddau arolygu diweddaraf ar bob gwefan a gynhelir ganddynt, neu bob gwefan a gynhelir gan drydydd parti ar eu rhan, mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw.

**Cwestiwn 1 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yn rhaid i ddarparwyr arddangos graddau arolygu ar eu gwefan, os oes ganddynt un?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 92 o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r gofyniad i ddarparwyr arddangos eu graddau arolygu ar eu gwefannau. Roedd llawer yn teimlo y byddai hyn yn helpu darpar gleientiaid, eu teuluoedd a'u ffrindiau i weld sut mae'r gwasanaeth yn perfformio a defnyddio'r wybodaeth hon i gymharu'r gwasanaeth â rhai eraill yn yr ardal, gan eu galluogi i ddod o hyd i'r gofal a'r cymorth gorau ar gyfer eu hanwyliaid. Roeddent hefyd o'r farn bod arddangos graddau yn adlewyrchu amgylchedd tryloyw ac agored ac yn galluogi darparwyr i ddathlu eu llwyddiannau. Gallai fod yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ysgogi gwelliant hefyd. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai ymatebwyr ei bod yn bosibl na fyddai graddau un gair yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir nac yn rhoi darlun clir ohono heb ychydig o gyd-destun ychwanegol – er enghraifft, dolen i'r adroddiad arolygu diweddaraf – a gwnaethant ein hannog i ystyried y dull gweithredu ymhellach.

Roedd 20 o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r gofyniad. Roedd rhai ohonynt yn poeni am yr effaith bosibl ar rai busnesau llai o faint pe bai'n rhaid iddynt arddangos gradd un gair heb unrhyw gyd-destun. Dadleuodd un ymatebydd nad oes gan blant unrhyw ddewis o ran ble y cânt eu lleoli. Roedd eraill yn poeni am yr effaith ar arferion comisiynu, capasiti a'r dewis o wasanaethau. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at Ofsted a'r effaith negyddol y gallai graddau arolygu un gair ei chael heb fwy o gyd-destun. Cyfeiriodd un ymatebydd at gost gwefan a nododd eraill nad oes gan bob gwasanaeth wefan.

Nododd 14 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig ac nid atebodd un ymatebydd y cwestiwn hwn.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r gofyniad i holl ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref arddangos eu gradd arolygu ar eu gwefan (os oes ganddynt un). Fodd bynnag, mae llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r trefniadau gweithredol ehangach i gyflwyno graddau arolygu unwaith y bydd y rheoliadau ar waith. Mae AGC yn gweithio gyda'r sector i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar y gwerthusiad annibynnol o raddau arolygu mud, gan gynnwys diwygio disgrifyddion arfaethedig y graddau. Nid yw AGC yn bwriadu dyfarnu graddau un gair ond, yn hytrach, bydd yn dyfarnu gradd ar gyfer pob un o'r pedair thema yn ei hadroddiadau arolygu, sef llesiant, gofal a chymorth, yr amgylchedd, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Rhaid cynnwys graddau arolygu mewn adroddiadau arolygu sy'n cael eu llunio a'u cyhoeddi gan AGC. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol a nodir yn adran 36(2)(d) o Ddeddf 2016 a gaiff ei alw i rym drwy lunio'r rheoliadau drafft. Bydd modd i ddarparwyr gwasanaethau gynnwys dolen i'w hadroddiad arolygu ar eu gwefan eu hunain ochr yn ochr â'u gradd arolygu er mwyn rhoi cyd-destun.

Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn.

## <u>B. Arddangos graddau yn safleoedd gwasanaethau neu o safleoedd gwasanaethau</u>

*Gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion*

### Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno <u>nad</u> oes yn rhaid i gartrefi gofal i oedolion sydd â phedwar unigolyn neu lai yn byw yn y gwasanaeth arddangos graddau ar safle'r gwasanaeth?

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd 29 o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno na ddylai cartrefi gofal llai i oedolion orfod arddangos eu graddau yn safle'r gwasanaeth gan y byddai'n amharu ar naws "cartrefol" y cartrefi hyn. Ailadroddodd rhai ohonynt y ddadl nad yw graddau un gair yn rhoi darlun clir o'r gofal a ddarperir gan y gwasanaeth.

Roedd 79 o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno y dylai cartrefi gofal i oedolion sydd â phedwar neu lai o breswylwyr gael eu heithrio rhag arddangos graddau arolygu, gan ddadlau y dylid cael dull gweithredu cyson ar gyfer y sector cyfan. Gwnaethant ddadlau bod cartrefi gofal mwy i oedolion yn gartrefi i'w preswylwyr hefyd a bod disgwyl i bob gwasanaeth gadw at yr un ddeddfwriaeth a safonau gofal. Lluniodd dau ymatebydd gymariaethau â rheoliadau hylendid bwyd a diogelwch tân gan nodi nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng maint gwasanaethau.

Teimlai un ymatebydd nad oedd y system yn ddigon dynamig i adlewyrchu gwelliant neu ddirywiad cyflym.

Nododd 18 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig ac nid atebodd un ymatebydd y cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r trefniadau gweithredol ehangach i gyflwyno graddau arolygu unwaith y bydd y rheoliadau ar waith. Mae AGC yn gweithio gyda'r sector i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar y gwerthusiad annibynnol o raddau arolygu mud, gan gynnwys diwygio disgrifyddion arfaethedig y graddau. Nid yw AGC yn bwriadu dyfarnu graddau un gair ond, yn hytrach, bydd yn dyfarnu gradd ar gyfer pob un o'r pedair thema yn ei hadroddiadau arolygu, sef llesiant, gofal a chymorth, yr amgylchedd, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Rydym wedi ystyried y nifer uchel o ymatebion a gafwyd yn gwrthwynebu'r agwedd hon ar y cynnig a nodwn fod cyfran uchel o'r ymatebion hyn wedi cael eu cyflwyno ar ran un darparwr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu arfaethedig yn gyson â'n bwriad polisi ehangach i sicrhau naws mwy cartrefol mewn cartrefi gofal llai i oedolion. Gall darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal llai i oedolion arddangos eu gradd o hyd os ydynt yn teimlo bod hynny'n briodol. Bydd y radd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar eu gwefan (os oes ganddynt un) ac ar wefan AGC. Rhaid cynnwys graddau arolygu mewn adroddiadau arolygu sy'n cael eu llunio a'u cyhoeddi gan AGC. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol a nodir yn adran 36(2)(d) o Ddeddf 2016 a gaiff ei alw i rym drwy lunio'r rheoliadau drafft. Bydd yn ofynnol hefyd i ddarparwyr sicrhau bod eu gradd arolygu ddiweddaraf ar gael ar gais.

Rydym yn cynnig y dylid cadw'r eithriad yn y rheoliadau drafft ac adolygu'r mater wrth i'r system graddau arolygu cyhoeddedig sefydlu ei hun.

*Gwasanaethau cartrefi gofal i blant*

**Cwestiwn 3 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno <u>nad</u> oes yn rhaid i gartrefi gofal i blant arddangos graddau arolygu ar safleoedd gwasanaethau?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 40 o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn na ddylai cartrefi gofal i blant orfod arddangos graddau arolygu. Roeddent yn dadlau bod cartrefi gofal i blant yn debyg i gartrefi teuluol yn hytrach na sefydliad ac na ddylai plant gael eu stigmateiddio. Yn ogystal, os caiff graddau eu harddangos, gallai hynny ddangos mai cartrefi gofal yw nhw.

Roedd 58 o'r ymatebion naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r esemptiad arfaethedig gan honni y byddai'n creu anghyfartaledd rhwng gwasanaethau, sy'n annheg ac yn cyfleu'r neges anghywir. Roeddent yn dadlau y gall oedolion fod yr un mor agored i niwed â phlant, ond y byddai'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau mwy i oedolion arddangos graddau arolygu o hyd yng “nghartrefi” eu preswylwyr.

Galwodd llawer o ymatebwyr am gysondeb, tryloywder a pharodrwydd i fod yn agored ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Nododd 25 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, gyda rhai ohonynt yn dweud nad oeddent yn gwybod digon am wasanaethau plant i wneud sylwadau. Nid atebodd pedwar ymatebydd y cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi ystyried y nifer uchel o ymatebion a gafwyd yn gwrthwynebu'r agwedd hon ar y cynnig a nodwn fod cyfran uchel o'r ymatebion hyn wedi cael eu cyflwyno ar ran un darparwr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu arfaethedig yn gyson â'n bwriad polisi ehangach i sicrhau amgylchedd teuluol, mwy cartrefol mewn cartrefi gofal i blant. Gall darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal llai i blant arddangos eu gradd o hyd os ydynt yn teimlo bod hynny'n briodol. Bydd y radd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar eu gwefan (os oes ganddynt un) a bydd yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod eu gradd arolygu ddiweddaraf ar gael ar gais. Nid yw AGC yn cyhoeddi adroddiadau arolygu fel mater o drefn ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal i blant ond mae'n darparu'r adroddiadau hyn ar gais. Rhaid cynnwys graddau arolygu mewn adroddiadau arolygu sy'n cael eu llunio gan AGC. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol a nodir yn adran 36(2)(d) o Ddeddf 2016 a gaiff ei alw i rym drwy lunio'r rheoliadau drafft.

Rydym yn cynnig y dylid cadw'r eithriad yn y rheoliadau drafft ac adolygu'r mater wrth i'r system graddau arolygu cyhoeddedig sefydlu ei hun.

*Gwasanaethau cymorth cartref*

**Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yn rhaid i ddarparwyr cymorth cartref arddangos eu graddau arolygu yn y swyddfa y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddi neu ohoni oni bai bod y swyddfa yn anhygyrch i aelodau o'r cyhoedd?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 83 o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai darparwyr cymorth cartref arddangos eu graddau arolygu yn y swyddfa y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddi neu ohoni. Nododd rhai ymatebwyr nad yw swyddfeydd llawer o wasanaethau cymorth cartref ar agor i'r cyhoedd neu nad yw'r cyhoedd yn ymweld â nhw'n rheolaidd. Yn hytrach, awgrymwyd y dylai'r graddau arolygu gael eu harddangos ar eu gwefannau ac yn yr holl lenyddiaeth am eu gwasanaethau; yn ogystal â gwefan AGC. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn darparu ffynhonnell dda o wybodaeth, yn rhoi sicrwydd ac yn cynnig tryloywder ynghylch y gwasanaethau. Teimlai nifer o ymatebwyr y byddai graddau ac arddangos graddau yn helpu i ysgogi gwelliannau.

Roedd 16 o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig, gan ddadlau y gallai graddau arolygu danseilio'r gwasanaeth a chael effaith negyddol ar y gweithlu.

Nododd 25 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. O'r rhain, teimlai rhai ohonynt na fyddai arddangos graddau ar eu pen eu hunain yn ddigon a gwnaethant awgrymu y dylid cynnwys dolenni i adroddiadau arolygu er mwyn rhoi cyd-destun. Teimlai nifer bach ohonynt hefyd fod angen mwy o fanylion ynghylch pa wybodaeth fyddai'n cael ei harddangos a ble, er mwyn ateb y cwestiwn hwn, gan ddadlau os mai dim ond mewn swyddfeydd y caiff yr wybodaeth ei harddangos, na fyddai hynny'n ddefnyddiol iawn i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaethau cymorth cartref na'u teuluoedd. Nid atebodd tri ymatebydd y cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull gweithredu arfaethedig. Bydd y radd arolygu hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y darparwr (os oes ganddo un) ac ar wefan AGC. Bydd yn ofynnol hefyd i ddarparwyr sicrhau bod eu gradd arolygu ddiweddaraf ar gael ar gais. Rhaid cynnwys graddau arolygu mewn adroddiadau arolygu sy'n cael eu llunio gan AGC. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol a nodir yn adran 36(2)(d) o Ddeddf 2016 a gaiff ei alw i rym drwy lunio'r rheoliadau drafft. Mae rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r trefniadau gweithredol ehangach i gyflwyno graddau arolygu unwaith y bydd y rheoliadau ar waith.

Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn.

## 2.2 Apelio yn erbyn graddau arolygu

**Cwestiwn 5 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r broses apelio a ddisgrifir yn y rheoliadau drafft?**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 71 o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig ar gyfer proses apelio a nododd rhai ohonynt ei bod yn bwysig, yn deg ac yn briodol. Teimlai rhai y byddai proses dau gam yn helpu cydymffurfiaeth ac yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau bod system deg ar waith i apelio pe byddent yn teimlo bod gwybodaeth bwysig wedi cael ei hanbwybyddu. Roedd rhai ymatebion wedi cwestiynu amserlenni'r broses apelio er eu bod yn cytuno y dylid cael proses apelio. Mynegwyd barn debyg gan rai o'r ymatebwyr a nododd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Cafwyd gwahaniaeth barn ynghylch y dull gweithredu annibynnol ac ymhlith yr awgrymiadau a wnaed roedd cynnwys yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu banel sy'n cynnwys sefydliadau trydydd sector, cyrff eirioli ac unigolion sy'n gadael gofal, sy'n adrodd i AGC. Yn ogystal, cododd rhai ymatebion bryderon am allu AGC i ddelio ag apeliadau a gwaith ailarolygu. Pwysleisiodd dau ymatebydd ei bod yn bwysig cael dull gweithredu cyson mewn

perthynas ag apeliadau yn erbyn graddau arolygu er mwyn sicrhau tegwch a chymesuredd.  Holodd tri ymatebydd a fyddai'n ofynnol i ddarparwyr arddangos eu gradd os oeddent yn apelio yn ei herbyn.

Roedd 19 o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r dull gweithredu ond roedd nifer o'r rhain yn gwrthwynebu graddau arolygu yn eu hanfod.  Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r broses apelio gynnwys mwy o fewnbwn gan wasanaethau ac na ddylid canolbwyntio'n gyfan gwbl ar dystiolaeth ffeithiol wrth benderfynu ar apêl. Nododd un ymatebydd nad oedd y broses apelio wedi cael ei phrofi'n ddigonol fel rhan o'r peilot graddau mud i wybod sut y byddai'n gweithio yn ymarferol.

Nododd 32 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig ac nid atebodd pum ymatebydd y cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull gweithredu arfaethedig. Mae rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r trefniadau gweithredol ehangach i gyflwyno graddau arolygu unwaith y bydd y rheoliadau ar waith. Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn.

## 2.3 Troseddau

### Cwestiwn 6 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i greu trosedd, sef methiant i arddangos graddau arolygu?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 62 o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig a gwnaethant nodi y dylid rhoi cosb os bydd methiant i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai methiant i arddangos y radd arolygu awgrymu bod rhywbeth i'w guddio.

Roedd 34 o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig i greu trosedd ac roedd yr awgrymiadau a wnaed yn cynnwys caniatáu cyfnod trosiannol cyn bod camau gorfodi yn cael eu cymryd yn erbyn darparwyr am beidio ag arddangos eu gradd ac y dylai AGC ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ar lefel weithredol yn hytrach na chreu trosedd. Teimlai un ymatebydd fod cyflwyno system o raddau arolygu yn gam yn ôl ac y byddai'n tanseilio'r ymddiriedaeth a'r gydberthynas agored rhwng darparwyr gwasanaethau ac AGC.

Nododd 27 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.  Nid atebodd pedwar ymatebydd y cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid creu trosedd. Caiff y drosedd ei chreu pan ddaw'r rheoliadau i rym. Ni fydd cyfnod trosiannol. Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn.

**Cwestiwn 7** – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â lefel y ddirwy y gall Arolygiaeth Gofal Cymru ei rhoi i ddarparwr os na fydd yn arddangos graddau arolygu?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 39 o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig hwn, gan ddadlau y dylai'r gosb fod yn briodol i ddifrifoldeb y rheol a dorrwyd neu, fel arall, ni fyddai'n atal achosion o ddiffyg cydymffurfio. Dadleuodd ymatebwyr y dylid dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif am fethiannau a dylai'r goblygiadau fod yn glir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y sector.

Roedd 46 o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno hysbysiad cosb, gan ddadlau y byddai'n mynd ag arian oddi wrth sector bregus ac y gallai gael effaith anghymesur ar fusnesau bach. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod lefel y gosb yn anghymesur i'r "drosedd" Gofynnodd un ymatebydd pam mae'r gosb mor uchel o gofio nad oes cosb o gwbl i rai troseddau mwy difrifol.

Nododd 35 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Nid atebodd saith ymatebydd y cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd lleiafrif bach yn anghytuno â lefel arfaethedig y gosb. Mae'r rheoliadau yn rhoi cyfle i'r darparwr dalu dirwy yn hytrach na wynebu camau cyfreithiol mewn perthynas â'r drosedd. Mae'r gosb sy'n daladwy am y drosedd yn gyfwerth â lefel 4 ar y raddfa safonol, sef £2,500 ac mae'n debyg i'r gosb am fethu â chyflwyno datganiad blynyddol. Er bod rhai troseddau mwy difrifol o dan Ddeddf 2016 na ellir talu hysbysiad cosb amdanynt, mae modd gwneud hynny ar gyfer pob trosedd a gaiff ei chreu gan reoliadau o dan adrannau 45 a 46 o Ddeddf 2016. Y gosb i droseddwyr sy'n cyflawni troseddau mwy difrifol yw eu bod, ar gollfarn, yn agored i ddirwy neu i'w carcharu o dan adran 51 o Ddeddf 2016. Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn.

## 2.4 Y Gymraeg

**Cwestiwn 8:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 9:** Esboniwch hefyd sut y gallai Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 gael eu llunio neu'u newid, yn eich barn chi, fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd 86 o ymatebion i gwestiwn 8 ac o'r rhain, ni wnaeth 27 ohonynt ateb y cwestiwn neu ni wnaethant ymateb y naill ffordd neu'r llall, a chafwyd 75 o ymatebion i gwestiwn 9 ac o'r rhain, ni wnaeth 34 ohonynt ateb y cwestiwn neu ni wnaethant ymateb y naill ffordd neu'r llall.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnig y dylai'r graddau arolygu fod ar gael yn ddwyieithog.

Ymhlith yr awgrymiadau a wnaed oedd cael arolygwyr Cymraeg a darparu fersiwn hawdd ei deall o raddau arolygu neu ddefnyddio symbolau i helpu pobl sy'n dibynnu ar arwyddion neu symbolau i gyfathrebu. Teimlai un ymatebydd y byddai graddau arolygu yn helpu i hyrwyddo'r ‘Cynnig Rhagweithiol’. Mynegodd lleiafrif o'r ymatebwyr sylwadau negyddol ynghylch hyrwyddo'r Gymraeg gan nodi ei bod yn wastraff amser ac arian, yn creu costau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau, ei bod yn amherthnasol a bod diffyg galw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae gan AGC arolygwyr dwyieithog yn barod ac mae disgwyl i bob darparwr gyflwyno'r ‘Cynnig Rhagweithiol’. Mae AGC yn datblygu'r agwedd weledol ar y graddau ac mae'n bwriadu defnyddio symbolau a lliwiau ochr yn ochr â geiriad y radd arolygu er mwyn cefnogi dealltwriaeth. Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn.

Rydym yn croesawu ac yn annog cyfleoedd i ddiwallu anghenion iaith unigolion yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU a'r rhaglen waith gysylltiedig Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU. Mae Cod Ymarfer AGC ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn disgrifio'r dull y mae'n rhaid i AGC ei ddefnyddio i arolygu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016. Mae'r cod yn nodi'r egwyddorion a'r dull seiliedig ar hawliau sy'n llywio ei gwaith arolygu.

**2.5 Unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig ond nad ydynt yn cael eu trafod yn yr ymgynghoriad**

**Cwestiwn 10:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd 58 o ymatebion. Cafwyd sylwadau gan sawl ymatebydd ar gategorïau'r graddau arolygu, y disgrifyddion, y sgorau a'r gallu i ennill gradd rhagorol yn ogystal ag arddangos y dystysgrif graddau yn ffisegol. Cododd rhai ohonynt bryderon am yr effaith bosibl ar forâl staff gan gyfeirio at raddau addysg Ofsted yn Lloegr. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at gapasiti AGC a gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd hyfforddi arolygwyr a sicrhau cysondeb o ran y broses arolygu a sut y caiff graddau arolygu eu dyfarnu. Nododd ymatebwyr yr effaith bosibl ar bobl (a'u teuluoedd) sy'n byw mewn cartref gofal sydd wedi cael gradd negyddol. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar sefydlogrwydd y farchnad, y gallu i gael cyllid ac yswiriant, y risg y bydd cartrefi gofal yn cynyddu ffioedd yn ogystal â'r diffyg dewis presennol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym wedi ystyried yr ymatebion i gyd. Mae'r materion a godwyd yn ymwneud â heriau systemig hysbys yn y sector ar hyn o bryd a'r trefniadau gweithredol ehangach i gyflwyno graddau arolygu unwaith y bydd y rheoliadau ar waith yn hytrach na chynnwys y rheoliadau drafft eu hunain. Nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn.

## <u>Adran 3 – Y camau nesaf</u>

Bydd *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025*, a fydd yn darparu ar gyfer system o raddau arolygu cyhoeddedig ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal (i oedolion a phlant) a gwasanaethau cymorth cartref, yn cael eu gosod gerbron y Senedd ar 28 Ionawr 2025. Os bydd y Senedd yn cytuno arnynt, byddant yn dod i rym ar 31 Mawrth 2025.

Bydd y rheoliadau drafft ar gael ar wefan y Senedd: Is-ddeddfwriaeth.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhestr o'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ac a oedd yn barod i rannu eu manylion:

1. Case Management Cymru Ltd
2. Lighthouse Residential Homes Ltd
3. Life Long Learning 4 Living Ltd
4. Azalea Care and Education Ltd
5. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
6. Leila Baker - unigolyn
7. Village Support Services
8. L'Arche
9. Rumney Care & Ambulance Service
10. Brightside Manor
11. Miracle Workers Agency Ltd
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
13. Taith Cartref - Accomplish Group
14. Thompson Court - Accomplish Group
15. College Fields - Accomplish Group
16. Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys
17. Accomplish Group
18. Richard Ebley - Unigolyn
19. Treeside - Accomplish Group
20. Manor Lodge - Accomplish Group
21. Keys Group
22. Q Care
23. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
24. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
25. Care in Wales Ltd
26. Cyngor Sir Ddinbych
27. Rob N - unigolyn
28. Denbigh Care Group
29. Hafod Housing Association Ltd
30. Hanbury Care
31. Shaw Healthcare
32. Hapus Care Home
33. East Park Care Centre
34. Alan Jones - Unigolyn
35. Cyngor Dinas Abertawe
36. Lakeside Homes Ltd
37. Cyngor Bwrdeistref Sirol y Fflint
38. Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
39. Care Rights UK
40. Cyngor Gwynedd
41. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
42. Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd
43. Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru
44. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
45. Y Coleg Nyrsio Brenhinol
46. Awdurdodau lleol rhanbarth Gwent a BIP Aneurin Bevan

47. Cyngor Dinas Caerdydd
48. Fforwm Gofal Cymru
49. Llais Cymru
50. HC One

Gwrthododd 69 roi caniatâd i rannu eu manylion.